

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Hydref 2il, 2014 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr John Williams, (Cadeirydd); Ifor Wyn Davies, (Is gadeirydd); Aled Lloyd Evans; Trefor Wyn Jones; Gwilym M Thomas; William Ifor Hughes; Thomas Prys Jones; Dafydd Williams a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau; Y Cyngorwyr Naomi Jones, Brian W Ifans, Anwen Jones, Alwen Evans, Marian Evans, Margaret Griffith ac Elis Gwyn Jones.
2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod Medi 4ydd, 2014.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol. Y Cyngorwyr William Ifor Hughes yn datgan diddordeb yng nghais cynllunio Hufenfa De Arfon, rhif 6.2; mae'n aelod o'r Hufenfa.
5. Cyngor Gwynedd.
 1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned. Derbyniwyd.
 2. Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Trafnidiaeth a gofal Stryd; Ail asesu blaenoriaeth trafndiaeth yng Ngroeslon Penybryn, Rhydycroesau ac ail asesu blaenoriaeth trafndiaeth ar groeslon Tyddyn Sianel. Bu cyfarfod safle gyda swyddog Cyngor Gwynedd, y Cyngorwyr Trefor W Jones a'r Clerc; heb gael ymateb ysgrifenedig hyd yma. Derbyniwyd.
 3. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant; Llundio Strategaeth Lletya Pobl Hŷn. Trafodwyd y llythyr yn gofyn am wybodaeth allai fod o ddefnydd i'r Cyngor Sir a phenderfynwyd ateb yn mynegi bod y Cyngor yma'n gresynu bod gwario arian ar gasglu gwybodaeth sydd yn bod yn barod drwy ganllawiau gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd.
 4. Adran Strategol a Gwella – Cyngor Gwynedd yn wynebu her ariannol sylweddol. Derbyniwyd a rhannwyd y posteri i'w harddangos yn y gymuned.
 5. Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; rhaglen waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Hydref 2014. Derbyniwyd.
 6. Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; Ardal Dwyfor – newidiadau i gasgliadau gwastraff. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth y bydd newid o Hydref 20fed ymlaen.
6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned
 1. Cais rhif: C14/0812/41/AM – Caniatad amlinellol am estyniad a newidiadau i adeilad ddiwydiannol; Uned 1-2 Parc Amaeth, Llanystumdwy. Roedd angen sylwadau ar hwn erbyn 25/09/2014. Angen cymeradwyo'r sylw anfonwyd sef dim gwrthwynebiad. Cymeradwyd.
 2. Cais rhif C14/0873/41/LL – Addasu rhan o adeilad storio caws presennol yn uned gynhyrchu caws a chynnyrch llaeth, ynghyd ag adeiladu estyniad atebol, gosod offer a pheiriannau cysylltiol, mynedfa gerbydol/cludiant a gwaith tirlunio/plannu cysylltiol; South Caernarfon Creameries Ltd, Rhydygwystl, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.
 3. Cais rhif C14/0920/41/LL – Trosi adeilad allanol presennol yn ddwy uned wyliau a gosod tanc septig; Dynanau, Llanystumdwy. Cefnogwyd.
 4. Cais rhif C14/0835/41/R3 – Gosod paneli dehongli ar strwythur pren; Ochr ffordd ger arwydd brown a gwyn, Ffynnon Gybi, Llanygybi. Cefnogwyd.

5. Cais rhif: C14/0830/41/HY – Gosod paneli dehongli; Railings ger Ffynnon Cybi, Llangybi. Penderfynwyd cefnogi ond gwneud y sylw nad yw'r Cyngor yma yn hapus gyda'r geiriad ar y paneli sef Ffynnon Sant Cybi. Gofynnodd y Cyngor yma sawl tro i Adran Economi a Chymuned, Ein Treftadaeth, Cyngor Gwynedd gywiro'r geiriad i Ffynnon Gybi.

6. Cais rhif: C14/0861/41/LL – Addasiadau ac ehangu 1 tŷ presennol, trosi 3 adeilad allanol yn 3 uned wyliau, codi modurdy ar wahân; Tyddyn Morthwyl, Rhoslan. Cefnogwyd.

7. Yr holiadur angen am dai lleol a gohebiaeth oddi wrth Gynghorau Tref Pwllheli a Phorthmadog. Roedd Cyngor Tref Pwllheli o'r farn mai gwaith y Cyngor sir yw casglu gwybodaeth tra mae Cyngor Tref Porthmadog am gydweithio gyda Mr Arfon Hughes fel Cyngor Cymuned Llanystumdwy. Bydd 500 o holiaduron yn cael eu rhannu yng nghymuned Llanystumdwy, 400 yn Ward Llanarmon a 100 yn Ward Llanystumdwy.

8. Arolwg blynyddol offer Cae Chwarae Llangybi. Nid oedd arolwg wedi cymeryd lle oherwydd salwch yr archwiliwr. Daeth arolwg ysgrifenedig pnawn ma; bydd ar raglen waith cyfarfod mis Tachwedd.

9. Siarter Iaith Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd ymestyn gwahoddiad i Ms Gwenan Ellis Jones, cyd- lynydd y prosiect i roi adborth o'r arolwg gynhaliwyd yn ystod tymor yr haf, i ddod i gyfarfod y Cyngor mis Tachwedd neu fis Rhagfyr.

10. Gohebiaeth oddi wrth gwmni bysiau Caelloi. Derbyniwyd yr ateb yn dweud na allant newid y gwasanaeth presennol oherwydd trafferthion cysylltu gyda bysiau eraill ac ar adegau bod maint y bws y maent yn ei ddefnyddio yn ei gwneud yn amhosib iddynt fynd drwy Lanarmon.

11. Gohebiaeth oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Penderfynwyd gofyn i CCG ble mae'r Dulux Trade Centre agosaf ac a oedd y gwasanaeth cludo am ddim?

12. Grant Datblygu Cymunedol Grŵp Cynefin. Penderfynwyd anfon y wybodaeth ymlaen i'r Ffynnon.

13. Materion yn y gymuned.

Rhoslan a'r Ynys

1. Groeslon Tyddyn Felin, angen arwydd am 'Rynys. Mae'r Clerc wedi trafod hyn gyda swyddog Cyngor Gwynedd.

Llanystumdwy

Chwilog

Llangybi

14. Materion heb gael ymateb iddynt. Dim tro yma.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

